Yn cyflwyno papurau banc polymer

Yn dilyn canlyniadau positif dros ben i'w raglen ymgynghori gyhoeddus, cyhoeddodd y Bank of England ym mis Rhagfyr 2013 y byddai'r papur £5 nesaf (yn cynnwys Syr Winston Churchill) a'r papur £10 nesaf (yn cynnwys Jane Austen) yn cael eu hargraffu ar bolymer. Mae polymer yn ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Y cynllun ar hyn o bryd yw cyflwyno'r papur £5 yn ystod ail hanner 2016 a'r papur £10 oddeutu blwyddyn yn ddiweddarach.

Mae'r Banc wedi casglu bod papurau banc polymer yn lanach, yn ddiogelach, ac yn wytnach na phapurau banc papur. Byddant yn darparu gwell ddiogeledd yn erbyn ffugio, ac yn cynyddu ansawdd y papurau banc sy'n cylchredeg. Hefyd mae papurau banc polymer yn fwy amgylchedd-gyfeillgar a, gan eu bod yn parhau'n hwy, dros gyfnod o amser, maent yn rhatach na phapurau banc papur.

Glân

Yn gwrthsefyll baw a lleithder ac felly'n aros yn lanach na phapurau banc papur

Diogel

Yn corffori nodweddion diogeledd uwch, yn eu gwneud yn anodd i'w ffugio

Gwydn

Yn parhau am o leiaf 2.5 gwaith yn hwy na phapurau banc papur gan wella ansawdd y papurau sy'n cylchredeg

Bydd y papurau banc polymer ychydig yn llai na'r papurau banc papur presennol (oddeutu 15% yr un). Caiff yr ymagwedd haenog tuag at feintiau papurau banc, gydag uchder a hyd gwahanol ar gyfer pob gwerth, ei gadw. Hefyd bydd y papurau banc yn cadw eu golwg traddodiadol, gyda phortread o Ei Mawrhydi'r Frenhines ar y blaen.

BANK OF ENGLAND

Cwestiynau Cyffredin

Beth oedd canlyniad y rhaglen ymgynghori?
Digwyddodd y rhaglen ymgynghori yn yr Hydref yn 2013 er mwyn ceisio barnau'r cyhoedd. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliodd y Banc arolwg ar-lein a mynychodd bron i 50 o ddigwyddiadau ledled y DU, heblaw am gomisiynu grwpiau ffocws ac arolygon annibynnol. Roed y canlyniadau'n bositif dros ben; roedd 87% o'r rhai hynny a ymatebodd o blaid argraffu'r papurau nesaf ar bolymer, gyda dim ond 6% yn ei erbyn. Hefyd ymgynghorodd y Banc â manwerthwyr, busnesau a'r diwydiant arian parod.

A ellir plygu papurau banc polymer?
Gellir. Mae papurau banc polymer wedi'u gwneud o haen blastig denau a hyblyg y gellir ei phlygu'n rhwydd.

A yw papurau banc polymer yn llithrig?
Mae papurau banc polymer yn teimlo'n wahanol i bapur a gallant deimlo'n llithrig pan ydynt yn newydd, er bod hyn yn tueddu i leihau dros gyfnod o amser ar ôl i'r papurau banc ddechrau cylchredeg. Hefyd bydd gan bapurau banc polymer fannau â phrint wedi'i godi a fydd yn rhoi nodwedd gyffyrddadwy iddynt ac a fydd yn lleihau'r teimlad llithrig.

A yw papurau banc polymer yn glynu at ei gilydd?
Ar brydiau gall papurau banc polymer newydd sbon lynu at ei gilydd, ond mae'r effaith hon yn fyrhoedlog unwaith maent yn cael eu defnyddio.

Ble caiff y papurau banc polymer eu hargraffu?
Cânt eu hargraffu yng ngweithfa argraffu'r Banc yn Essex.

A fyddaf yn gallu defnyddio papurau banc polymer yn yr un ffordd â phapurau banc papur?
Byddwch. Gellir defnyddio papurau banc polymer yn yr un ffordd â phapurau banc papur. Er enghraifft, bydd papurau banc polymer ar gael mewn peiriannau ATM a bydd manwerthwyr a busnesau'n eu derbyn.

A fydd cyfnod pontio esmwyth i'r cyflwyniad o bapurau banc polymer?
Bydd. Bydd y Banc yn cynnal rhaglen lawn o addysg a chyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau bod manwerthwyr, busnesau a'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r ffordd y bydd y papurau banc newydd yn ymddangos a sut i'w dilysu. Hefyd bydd y Banc yn gweithio'n agos gyda gwneuthurwyr y peiriannau sy'n derbyn ac yn dosbarthu papurau banc er mwyn sicrhau y bydd cyfnod pontio esmwyth i bolymer.

Pryd caiff y papurau banc papur eu tynnu'n ôl?
Caiff y papurau banc papur £5 a £10 cyfredol eu tynnu'n ôl o gylchrediad wrth i'r papurau banc polymer gael eu cyflwyno.

A gaiff y papurau banc £20 a £50 eu hargraffu ar bolymer hefyd?
Caiff penderfyniad ynghylch argraffu'r papurau banc £20 a £50 ar bolymer ei wneud yn ei bryd.

Pa wledydd eraill sy'n defnyddio papurau banc polymer?
Ar hyn o bryd mae mwy na 30 o wledydd yn cyhoeddi papurau polymer. Mae'r rhain yn cynnwys Awstralia (a'i cyflwynodd ym 1988), Seland Newydd, Mecsico, Singapôr, Canada a Ffiji.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth ynghylch polymer, gan gynnwys taflenni ffeithiau ar destunau allweddol ar ein gwefan: www.bankofengland.co.uk/banknotes/polymer

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 020 7601 4878

BANK OF ENGLAND

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg. PFSW3